

Sul y Genhadaeth

Darllen: Luc 4:14–15

Pwrpas yr eglwys yw cenhadu. Dyna’i ddweud o’n blaen a diamwys. Dau air allweddol i Iesu oedd ‘dewch’ ac ‘ewch’. Dod ato yw’r cam cyntaf, a chael ein trawsffurfio gan ei bersonoliaeth, ei ddisgeidiaeth a’i fywyd. Wedi’r trawsffurfio, y cam nesaf yw ymgynraedd at eraill. Ni ellir aros yn yr unfan pan fydd ef wedi dylanwadu arnom. Mae yna ysfa a rheidrwydd i rannu ag eraill, i gymell eraill i ddod i adnabod Iesu. Wedi’r cyfan, criw o bobl wedi eu meddiannu gan Iesu yw’r Eglwys. Dyma’r halen, y goleuni a’r lefain y soniodd Iesu amdanynt. Yr halen sy’n rhoi blas i’r bwyd, y goleuni sy’n goleuo’r tywyllwch a’r lefain sy’n chwyddo’r toes.

Beth oedd strategaeth Iesu pan anfonodd ei ddisgyblion ar genhadaeth? Cyn ystyried hyn, mae’n rhaid cofio mai ‘yn nerth yr Ysbryd’ y cyflawnodd Iesu ei weinidogaeth. Roedd ei holl fywyd yn dibynnu ar weithgarwch yr Ysbryd Glân. Amlygwyd hyn adeg ei fedydd, adeg ei brofi yn yr anialwch ac ar ddechrau ei weinidogaeth. Darllenodd eiriau’r proffwyd Eiseia gan eu hanelu at ei sefyllfa ei hun, ‘Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f’eneinio’ (Luc 4:18). Y maes cenhadol iddo ef oedd carreg ei ddrws yng Ngâlilea, lle’r roedd y tlodion yn crafu byw. Gyda’r tlawd a’r di-nod y dechreuodd rannu’r newyddion da, gan ddangos iddyn nhw, y bobl nad oedd ganddyn nhw fawr ddim, eu bod yn cyfrif yng ngolwg Duw. Yma y cafodd ei dderbyn, ac yma y cafodd groeso twymgalon am fod ganddo newyddion da i’w rannu. Mae’n werth cofio nad yn y dinasoedd mawr, megis Jerwsalem, y dechreuodd ar ei genhadaeth ac nad ymhlith y crefyddwyr y cyhoeddodd y newyddion da. Ymhlith trefi a phentrefi Galilea, yn ei gynefin, y dechreuodd ar ei genhadaeth. Yn y lle di-nod a dibwys hwn. Nid anghofiodd Iesu fro ei febyd, na’i gartref, na’i gartref ysbrydol yn y synagog; ac yno y cyhoeddodd ei neges am y tro cyntaf. Rhannodd ei neges â’i bobl ei hun cyn mynd ati i’w rhannu â’r genedl gyfan ac â’r byd i gyd.

Mae'n werth sylwi hefyd mai yn y synagog ar y Saboth y cyhoeddodd Iesu ei genadwri, a hynny 'yn ôl ei arfer'. Nid oedd Iesu'n barod i gefnu ar arferion ei genedl a'u hanwybyddu, gan fod parchu'r Saboth yn un o ofynion y Deg Gorchymyn, sef diwrnod i goffau Duw yn gorffwyso ar ôl creu'r holl Greadigaeth.

Felly crynhown ein myfyrdod. Yn llawn o'r Ysbryd, cychwynnodd Iesu ar ei genhadaeth gyda'i bobl ei hun, yn ei gynefin ei hun, yn ei 'gynulliad' ei hun ar y seithfed dydd. Mae'r maes yn barod, a holl arfogaeth Duw o'i blaid. Ar garreg y drws y mae dechrau.

Myfyrdod pellach:

Ystyriwn ein cenhadaeth heddiw. Pa mor barod ydyn ni i blygu i Ysbryd Duw? Pa mor effeithiol ydyn ni yn ein cynefin?

Pa mor arwyddocaol yw'r ffaith i'r Iesu ddechrau gyda'r bobl gyffredin ac nid y bobl grefyddol?